Grantiau Penodol

Mae gennym **4** grant perthnasol

Enw'r cynllun: **Cronfa Beilot 'Ewch Amdani'**

Ffynhonell: **Mantell Gwynedd**
[cliciwch ar yr enw am fanylion bellach am y sefydliad yma, yn cynnwys cyfeiriad, rhifau ffan a ffacs ayyb]

Manylion: Nod ac Amcanion

Mae Mantell Gwynedd mewn partneriaeth newydd â Chyngor Chwaraeon Cymru wedi sefydlu cronfa grant beilot gwerth £15,000 am flwyddyn hyd ddiwedd Rhagfyr 2008 i gefnogi grwpiau gwirfoddol ar draws Gwynedd sydd ddim wedi eu sefydlu'n wreiddiol i ddiben chwaraeon neu heb fod yn ymwneud â chwaraeon a gweithgarwch corfforol (Non-Sporting Voluntary Organisations)

Mae'r Gronfa Beilot yn cynnig grant refeniw a/neu gyfalaf hyd at uchafswm o £1,000 ar gyfer gweithgareddau fydd yn :

• Annog mwy o bobl o bob oed fyddai ddim yn arferol yn gwneud gweithgarwch corfforol i wneud gweithgaredd corfforol o'r newydd yn rheolaidd;
• Annog mwy o weithgareddau corfforol yn y gymuned gan grwpiau gwirfoddol/cymunedol fyddai ddim yn draddodiadol yn ymwneud â chwaraeon/gweithgareddau corfforol;
•Annog a meithrin gallu mwy o bobl i fod yn arweinwyr chwaraeon cymwysiedig yn eu cymunedau er mwyn gallu arwain a chynnal gweithgareddau chwaraeon/corfforol amrywiol o fewn y gymuned leol;
•Cyfrannu tuag at godi lefelau ffitrwydd a gwella iechyd pobl yn gyffredinol o fewn cymunedau;
•Gwella a chynyddu adnoddau ar gyfer cynnal gweithgareddau chwaraeon/corfforol yn y gymuned leol;
•Cymell diddordeb pobl i wneud gweithgaredd o'r newydd a fyddai'n arwain at godi hyder a meithrin gallu pobl;

Manylion Cyswllt: Pwy all wneud cais am grant?

•Mae'r gronfa'n agored i unrhyw grŵp gwirfoddol/cymunedol, mudiad gwirfoddol,elusennau cofrestredig neu cangen leol o fudiad cenedlaethol gyda chyfansoddiad ac sydd heb fod wedi ei sefydlu i bwrpas chwaraeon neu sydd heb ymwneud â chwaraeon a gweithgarwch corfforol o'r blaen ac sy'n gweithio er budd pobl Gwynedd (Non-Sporting Volunatary Organisation);
•Rhaid i'r gweithgareddau fod wedi eu lleoli yng Ngwynedd. Os yw'r grŵp/mudiad yn weithgar tu allan i Wynedd rhaid i'r prosiect/cynllun gael ei redeg a'i gynnal yng Ngwynedd;
•Mae'n rhaid i'r grŵp feddu ar gyfrif banc yn enw'r mudiad;
•Rhaid i'r grŵp ddangos dealltwriaeth ac ymrwymiad i gyfle cyfartal mewn perthynas â mynediad, iaith, diwylliant, rhyw a materion hiliol

Pwy all ddim gwneud cais am grant?

•Nid yw'r gronfa yn agored i grwpiau/clybiau chwaraeon sefydliedig e.e clybiau pêl droed, rygbi, gymnasteg ac ati; (Dylai'r grwpiau hyn ymgeisio i'r Loteri/ Cist Gymunedol Sportlot Gwynedd)
•Aelodau unigol o'r cyhoedd;
•Ysgolion cynradd nac uwchradd;

Beth fydd y grant yn talu amdano?

•Rhaid cynnal lleiafswm o 4 sesiwn o dan y cynllun hwn;
•Gellir gwneud cais am gyllid tuag at gostau cymhwyster hyfforddi arweinyddion mewn chwaraeon/gweithgareddau penodol a fydd yn gallu arwain/cynnal y gweithgareddau

hynny yn y gymuned yn dilyn ennill y cymhwyster perthnasol;
•Gellir gwneud cais am arian refeniw a/neu gyfalaf (cyfalaf = i brynu offer penodol ar gyfer chwaraeon penodol);
•Ystyrir unrhyw gostau cysylltiedig â'r weithgaredd newydd o sicrhau bod digon o ddiddordeb yn y prosiect;

Beth na fydd y grant yn talu amdano?

•Gweithgareddau corfforol fel garddio, DIY, gwelliannau amgylcheddol, dawnsio perfformiad, ioga neu sgiliau syrcas;
•Gweithgareddau penodol a chostau hyfforddiant arweinyddion grwpiau/clybiau chwaraeon sefydliedig e.e pêl droed, rygbi, hoci, nofio ac ati; (Dylai'r grwpiau hyn ymgeisio i'r Loteri / Cist Gymunedol Sportlot Gwynedd)
•Sesiynnau blasu "one-off";
•Prosiectau a ystyrir yn rhan o gostau rhedeg o ddydd i ddydd mudiad;
•Cefnogaeth ariannol i unigolion;
•Eitemau personol o ddillad i unigolion;
•Costau gweinyddu parhaus;
•Arlwyo a lletygarwch;
•Medalau, tystysgrifau neu dlysau;
•Teithiau cartref neu dramor;
•Costau newid, atgyweirio neu gynnal a chadw offer presennol;
•Yswiriant Indemniad (Indemnity) personol i hyfforddwyr;

Sut i wneud cais?

Mae'n hanfodol eich bod yn trafod unrhyw syniad am gynllun newydd gyda Swyddog Grantiau Mantell Gwynedd. Am becyn cais neu manylion pellach cysylltwch â Delyth Vaughan ar 01286 672 626 neu
Am>delyth@mantellgwynedd.com

Am fwy o wybodaeth ewch i
**Does>www.mantellgwynedd.com

**Does dim dyddiadau cau ffurfiol – mae croeso i unrhyw fudiad gyflwyno cais ar unrhyw adeg hyd at ddechrau mis Rhagfyr 2008 **

Categoriau: chwaraeon
cyffredinol
iechyd